

**Cyngor Tref Y Bala**  
**Cofnodion Is-bwyllgor cyllid nos Fercher 6/12/17**

**Presennol:** Dilys Evans, Eifion Roberts, Lis Puw

1. **Adolygwyd y Rheolau Ariannol** - Adolygwyd ar gyfer eu cadarnhau gan y Cyngor llawn; cytunwyd i edrych eto ar y broses Rheoli Perfformiad y Clerc.
2. **Adolygwyd y Risgiau Ariannol** i'r Cyngor. Cytunwyd fod angen bod yn wylidwrus o gostau posibl pe byddai Cyngor Gwynedd yn rhoi cyfrifoldeb rhedeg y toiledau ar y Cyngor Tref.
3. Atgoffwyd ein hunain o anghenion Awdit 2017-18 – sef
  - a. **Effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol.** Gan ein bod wedi clywed yn ddiweddar am ymddeoliad JR, cytunwyd y dylid anfon llythyr o ymrwymiad at Brif Archwilydd Cyngor Gwynedd, Luned Fôn Jones, archwilydd proffesiynol a chymwys iawn i wneud y gwaith. Cadarnhawyd bodlonrwydd gyda gwasanaeth yr Archwilydd Mewnol am 2016-17 (sef John Roberts) a nodwyd ei sylwadau cadarnhaol ar y Datganiad Blynyddol gan y Cyngor llawn ac eto gan yr is-bwyllgor hwn.
  - b. **Defnydd derbynol o arian a glustnodwyd:** mae'r Cyngor yn derbyn adroddiad misol gan y Clerc ac mae'r manylion yn cael eu gwirio gan yr Is-Bwyllgor. Mae arian wrth gefn yn cael ei glustnodi at bwrpasau arbennig:
    - i. Mainc Blaenddol
    - ii. Toiledau'r Grin
    - iii. Lloches Bws newydd
    - iv. Prynu goleuadau Nadolig newydd yn lle'r rhai a ddifrodwyd gan NMWTRA
    - v. Bwrdd/byrddau gwybodaeth newyddi egluro treftadaeth leol
  - c. Cedwir tua £7k wrth gefn, tua un rhan o dair o'r gwariant arferol.
4. **Goblygiadau Taliadau i Gynghorwyr:** rhoddwyd ystyriaeth i Gynigion Drafft y Panel Annibynnol, ond gan eu bod yn gynigion drafft hyd at Chwefror 2018, cytunwyd fod y penderfyniad a gymerwyd yn unfrydol yn y Cyfarfod Blynyddol 2017 yn parhau mewn grym (sef dim ond cymryd costau teithiol) ac nid yw'n bosib llunio cyllideb na Phraesept erbyn Ionawr yng ngoleuni cynigion ar ffurf **drafft**.
5. **Y sefyllfa ariannol:** Astudiwyd y sefyllfa ariannol bresennol a rhagolwg gwario tebygol erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Rhagdybir y bydd balans o £16,000, ond cadwyd mewn cof nad ydyw'r Cyngor hyd yn hyn wedi cyfrannu'r £4,000 a glustnodwyd yng nghyllideb eleni ar gyfer cadw toiledau'r Grin ar agor.
  - a. Gosodwyd y gyllideb 2018-19 i sylw'r Cyngor llawn
  - b. Cytunwyd i gynnig codi'r Praesept 2018-19 i £24,000, sef £2000 yn fwy na llynedd. Bydd hyn yn gadael dim ond tua £7500 wrth gefn. Mae angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol y bydd rhaid codi cyfraniad at y Toiledau yn lleol, ac ni ellir dibynnu ymhellach nag eleni ar arian wrth gefn i gynnal y rhain.
6. **Adolygu Cyflogau:** Cytunwyd i ddilyn argymhellion NJC pan fyddant yn cael eu cyhoeddi.
7. **Costau cynnal swyddfa:** Cytunwyd i dalu £250 eleni (mis Rhagfyr) tuag at gostau rhedeg swyddfa, yn cynnwys ffôn, a rhoi £300 ar gyfer hyn yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. Mae costau stampiau ac amlenni tua £30 y flwyddyn. Awgrymwyd bod y Clerc yn rhoi gwybod i'r 3 Cyngor os bydd angen cyfrifiadur /argraffydd etc newydd fel bo'r 3 chyngor yn gallu cyfrannu at y gost.